# Ymgysylltiad Safle Strategol ym Mwrdeistref Sirol Conwy gan Gymorth Cynllunio Cymru:

# Adroddiad Llanrhos

## 1. Cefndir

Comisiynwyd Cymorth Cynllunio Cymru gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBS Conwy) ym Medi 2023 i ddarparu gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned an-statudol ar 5 Safle Strategol yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy. Mae'r adroddiad hwn hyn rhoi crynodeb o'r gweithgareddau a wnaed o ran Safle Strategol Llanrhos. Mae'n crynhoi'r adborth a gafwyd gan gymunedau lleol a gymerodd ran yn y digwyddiadau ar gyfer y safle a gyflwynwyd gan Gymorth Cynllunio Cymru. Mae'r adroddiad hwn a'r holl sylwadau ychwanegol a gafwyd ar e-bost wedi cael eu cyflwyno i CBS Conwy sy'n bwriadu defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i gyfeirio cam Archwilio gan y Cyhoedd y cynllun.

Fel sefydliad sy'n cefnogi ymgysylltu â'r gymuned yn y broses gynllunio, mae Cymorth Cynllunio Cymru ond yn gwneud comisiynau sy'n:

- Cyd-fynd â'i genhadaeth ar gyfer system gynllunio decach, mwy tryloyw ac ymatebol.
- Mae'n credu y gall ychwanegu gwerth i ymgynghoriad cynllunio / proses ymgysylltu ac y bydd yn caniatáu i fwy o bobl gael dweud eu dweud yn fwy ystyrlon yn y broses honno.

Yn ogystal â bodloni'r blaenoriaethau hyn, mae Cymorth Cynllunio Cymru yn croesawu'r gweithgaredd ymgysylltu hwn yn arbennig. Tra bod gwersi a ddysgwyd yn gallu cael eu defnyddio gyda gweithgareddau'r dyfodol, mae'n mynd y tu hwnt i beth sydd angen i Awdurdod Cynllunio Lleol ei wneud mewn rheoliadau cynllunio - mae'r ymarfer cyfan yn cael ei gyflwyno yn ychwanegol i ymgynghoriadau 'statudol' sydd wedi ac a fydd yn cael eu cynnal ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

## 2. Cwmpas a Methodoleg

Bwriad y gwaith ymgysylltu hwn oedd edrych ar safbwyntiau cynrychiolwyr cymunedol ynglŷn â sut y gellir datblygu'r safleoedd yn y dyfodol. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i arwain polisïau safle penodol / Cynlluniau Lleoedd / Brîff Safle / Uwchgynlluniau (neu hyd yn oed ceisiadau cynllunio) a bydd yn hwyluso cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i'w Archwilio yn 2024. Roedd cwmpas y prosiect gwreiddiol yn cynnwys darparu un digwyddiad wyneb yn wyneb ac un digwyddiad ar-lein ar gyfer bob safle (cyfanswm o 10 digwyddiad) rhwng Hydref a Rhagfyr 2023.

Roedd diffyg lleoliadau ar gael yn golygu nad oedd yn bosib cynnal yr holl ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod hwn a chaniatáu amser ar gyfer hysbysebu, ac o ganlyniad cytunwyd y byddai rhai digwyddiadau'n cael eu symud i Ionawr 2024 a byddai digwyddiadau ychwanegol yn cael eu cynnal yn dibynnu ar alw.

Mae'r prosiect wedi denu adborth sylweddol ar gyhoeddusrwydd y digwyddiadau gan aelodau o'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig. Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gwneud bob ymdrech i addasu natur y gweithgareddau yn briodol ac yn anffodus, nid oedd yn bosib defnyddio rhestrau cyswllt Cynllun Datblygu Lleol oherwydd rhesymau Diogelu Data. O ganlyniad, mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gwneud gwaith ychwanegol y tu hwnt i gwmpas y cynnig gwreiddiol, gan gynnwys paratoi a phostio llythyrau at drigolion sy'n agos at y safle (gweler adran 3, isod), a chynnal digwyddiad y prynhawn arall yn Llanrhos.

Dilynodd y digwyddiad ar-lein a'r un wyneb yn wyneb yr un fformat yn fras. Rhoddodd Cymorth Cynllunio Cymru gyflwyniad ac yna cynnal trafodaeth cynulleidfa ynghylch set o destunau eang oedd yn gorgyffwrdd. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth am:

- Swyddogaeth Cymorth Cynllunio Cymru a natur y digwyddiadau.
- Trosolwg cryno o broses baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, dyraniadau tir, safleoedd ymgeisiol a sut mae CDLl yn dylanwadu ar benderfyniadau ceisiadau cynllunio.
- Crynodeb o'r gweithgareddau sydd eisoes wedi digwydd ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy hyd yma (gan gynnwys ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir yn 2019) a'r ymgynghoriad Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd a ddisgwylir yn 2024.
- Diffiniad o Safleoedd Strategol, a sut maent yn cael eu hasesu a'u dethol.
- Targedau cyfredol yr awdurdod (4,300 o gartrefi gan gynnwys 700/20% wrth gefn a 1,500 o swyddi ar dir cyflogaeth 16.4ha).
- Adolygiad o'r dyraniad safle a fwriedir yn Strategaeth a Ffafrir 2019 a chymhariaeth â'r cynnig cyfredol.
- Mae manylion y cynnig cyfredol fel a ganlyn:
  - Gostyngiad yn arwynebedd cyffredinol y safle ers 2019, gan dynnu rhannau o'r Gorllewin, y De-orllewin a'r De-ddwyrain o'r dyraniad gwreiddiol.
  - Gostyngiad yn y nifer o gartrefi a ragwelir o 250 i 100-150 o gartrefi newydd, i gynnwys tai fforddiadwy.
  - Cael gwared ar ddyraniad 1ha o ofod swyddfa bwriadedig.
  - Dim ysgol gynradd newydd ar y safle fel y cynigiwyd yn wreiddiol, ond bydd mesurau lliniaru i gynyddu capasiti Ysgol Deganwy fel blaenoriaeth (swm gohiriedig a thir os oes angen) yn cael eu ceisio gan ddatblygwyr.

- Cynnwys ‘parthau clustogi’ i wahanu’r safle oddi wrth eiddo / busnesau cyfagos, mewn lleoliadau sydd eto i’w diffinio.
- Angen diffinio teithio llesol, man agored cyhoeddus, a darpariaeth rhandiroedd.

Ymdriniodd Cymorth Cynllunio Cymru â chwestiynau ar weithdrefnau ble bynnag fo’n bosib a gofynnwyd cwestiynau dilynol i ystyried materion ymhellach pan oedd yn briodol, pwysleisiwyd hefyd y byddai unrhyw adborth (gan gynnwys cwestiynau) a gasglwyd gan gyfranogwyr yn cael ei gyflwyno’n ôl i CBS Conwy air am air.

Ar gyfer y digwyddiad ar-lein, cafodd y sesiwn gyfan ei recordio a chafodd adborth gan gyfranogwyr ei drawsgrifio. Ar gyfer y sesiwn wyneb yn wyneb, cafodd y cyfranogwyr gopïau papur o’r map safle a thaflenni hybu trafodaeth a chawsant wahoddiad i gofnodi eu hadborth un ai’n uniongyrchol ar y taflenni neu ar nodiadau.

Hwyluswyd pedwar testun trafod eang fel a ganlyn:

1. **Argraffiadau Cyntaf**, ble gwahoddwyd sylwadau a chwestiynau cychwynnol ar unrhyw destun.
2. **Gwybodaeth Leol,** ble gwahoddwyd cyfranogwyr i ddisgrifio cymeriad y safle presennol ar hyn sydd o’i amgylch a rhannu eu safbwyntiau ar y cais a’r effeithiau yng nghyd-destun y wybodaeth hon.
3. **Dylunio Safle**, ble gwahoddwyd cyfranogwyr i ystyried goblygiadau dylunio mewn perthynas â mynediad / priffyrdd, symudiad ar draws y safle, Teithio Llesol, ffurf a natur man agored, materion amgylcheddol, diogelwch ac unrhyw welliannau posib a fyddai’n gwneud y dyraniad yn well.
4. **Blaenoriaethau Cymunedol,** ble gwahoddwyd cyfranogwyr i ystyried anghenion y gymuned, bylchau mewn darpariaeth ac unrhyw welliannau neu fuddion y gallai’r safle eu creu.

Cyflwynir crynodeb o’r adborth a gasglwyd fel rhan o’r ymarfer yn rhan 4, isod. Mae atodiad A yn cyflwyno’r adborth llawn fel y cyflwynwyd yn y ddau ddigwyddiad. Pwysleisiwyd hefyd y gellir darparu sylwadau pellach yn ysgrifenedig erbyn 31 Ionawr 2024, ac mae’r holl ohebiaeth a gafwyd wedi ei roi i CBS Conwy gyda’r adroddiad hwn. Mae crynodeb o’r sylwadau ychwanegol a gafwyd yn Atodiad B (SYLWER: ni chyhoeddwyd y sylwadau llawn yn yr adroddiad hwn am resymau Diogelu Data).

## 3. Hysbysebu, archebu, ac adborth ar gyhoeddusrwydd

Gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol yn CBS Conwy, bu i Gymorth Cynllunio Cymru baratoi deunydd hysbysebu aml-sianel oedd yn cynnwys:

- Cyhoeddwyd hysbysiadau e-bost i gynrychiolwyr lleol (Aelodau Etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned).

- Cyhoeddwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol CBSC.
- Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg leol trwy dîm y wasg CBSC.
- Rhannwyd manylion ar wefan CBSC.
- Dosbarthwyd posteri i leoliadau priodol yn agos at bob safle.
- Anfonwyd llythyrau i eiddo cyfagos neu ger y safleoedd dan sylw.

Roedd pob hysbysiad e-bost yn gwahodd cyfranogwyr i rannu'r gwahoddiadau gyda'u rhwydweithiau lleol. Mewn rhai achosion, denodd hyn sylw sylweddol yn y cyfryngau cymdeithasol a'r wasg.

Roedd pob hysbysiad yn cynnwys dolen at ffurflen archebu digwyddiad ar lwyfan Eventbrite a ddefnyddiwyd er mwyn i Gymorth Cynllunio Cymru gynllunio o amgylch nifer y digwyddiadau.

O ystyried natur breswyl Llanrhos a nifer cyfyngedig y cyfeiriadau e-bost ar gael ar-lein, dosbarthwyd taflen i bob eiddo preswyl a busnes yng nghyffiniau'r safle yn hytrach na hysbysebu dros e-bost, a gyfyngwyd i aelodau etholedig lleol. Dosbarthwyd 334 o lythyrau â llaw neu drwy'r post. Cynhyrchwyd crynodeb o'r archebion a nodir y cyfranogiad canlyniadol ar gyfer safle Llanrhos isod:

| **Digwyddiad** | **Archebion** | **Yn bresennol** |
|---|---|---|
| Llanrhos – ar-lein, 20 Tachwedd. | 16 | 13 |
| Llanrhos – yr Hen Ysgol (x2), 23 Ionawr. | 92 | 62 |
| **Cyfanswm:** | **108** | **75** |

<u>Adborth ar gyhoeddusrwydd</u>

Gwnaed addasiadau wrth roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau ble bynnag fo'n bosib wrth i'r gweithgareddau ddatblygu ac yn unol â'r adborth a gafwyd gan aelodau lleol a'r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebu trwy'r post, nad oedd yn wreiddiol yn rhan o gwmpas y prosiect.

Yn achos safle Llanrhos, dosbarthwyd llythyrau â llaw neu anfonwyd drwy'r post at y 334 eiddo agosaf at y safle gan ddefnyddio cyfeiriadau a ganfuwyd trwy ddefnyddio mapiau ar-lein CBS Conwy, gan flaenoriaethu pob eiddo preswyl i'r Gogledd o'r dyraniad yn Llanrhos (Ffordd Conwy, Gerddi St Anne, Bryn Lupus Road, Parc Lôn Pedr, Ffordd Grange, Hill View Road a Bryn Lupus Drive), cyfeiriadau busnes i'r De a'r De-orllewin o'r safle, ac eiddo gyferbyn ar Faes y Castell a Ffordd Deganwy i'r Gorllewin o'r safle.

Dylid nodi, yn wahanol i arolwg cyhoeddus, ble gwahoddir y boblogaeth ehangaf bosib i ddenu ystod o safbwyntiau, roedd y digwyddiadau hyn wedi eu dylunio i

edrych a thrafod barn cynrychiolwyr cymunedol sy'n lleol i'r safleoedd. Er hynny, codwyd pryderon yn ystod y prosiect:

- Nad oedd y digwyddiadau wedi eu hysbysebu'n ddigon eang a ni fu iddynt gyrraedd digon o bobl mewn pryd. Roedd hyn yn rhannol gyfyngedig gan yr amserlenni a sefydlwyd i gwblhau'r prosiect ac yn rhannol gan y cysylltiadau cyfyngedig a ellir eu rhoi i Gymorth Cynllunio Cymru. Hysbysebwyd bob digwyddiad i aelodau etholedig lleol, Cyngor Tref Conwy, Cyngor Tref Llandudno, trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Conwy, trwy ddatganiadau i'r wasg a thrwy hysbysebu lleol a llythyrau.
- Nid oedd y wybodaeth a ddarparwyd am y digwyddiadau yn ddigonol a chafwyd sawl cais am fwy o wybodaeth gan CBS Conwy a Chymorth Cynllunio Cymru. Er y gwnaed bob ymdrech i fod yn glir ynglŷn â natur y digwyddiadau yn yr hysbysebu cychwynnol, codwyd nifer o bryderon ynghylch diffyg gwybodaeth am y cynigion ar y safleoedd eu hunain. Er y pwysleisiwyd ar bob cyfle bod gwybodaeth ar gael am y safleoedd ar y cam hwn o'r broses CDLl Newydd ac mai nod yr ymarfer yw cefnogi'r ymgynghoriad statudol dilynol ar y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, bu i'r pryderon hyn barhau. Cyflwynodd Cymorth Cynllunio Cymru ddogfen Cwestiynau Cyffredin 10 tudalen ynglŷn â'r ymarfer a dosbarthu sleidiau digwyddiad ar ôl y digwyddiad cyntaf ar bob safle o ganlyniad.

Yn seiliedig ar yr uchod, byddai Cymorth Cynllunio Cymru yn gwneud yr argymhellion canlynol ar gyfer gwella cyhoeddusrwydd yn y dyfodol:

1. Sefydlu a chyhoeddi cwmpas a chyfyngiadau gweithgareddau o'r dechrau, gosod hyd yn oed yn fwy o bwyslais ar wahodd cynrychiolwyr cymunedol i helpu i 'ledaenu'r gair'.
2. Caniatáu isafswm o 8 wythnos o amser arwain ar gyfer hysbysebu bob digwyddiad.
3. Sicrhau y sefydlir tudalen we gyda'r holl wybodaeth gefndir, dolenni at ymarferion blaenorol a manylion ynghylch sut i archebu lle mewn digwyddiadau cyn dechrau hysbysebu.
4. Ystyried lleoliadau mwy / mwy hyblyg, gan ystyried agosrwydd at y safleoedd dan sylw.
5. Sicrhau bod y gofrestr CDLl ar gael / y gellir cael cyhoeddusrwydd trwy'r gofrestr.

## 4. Crynodeb o'r adborth ar Safle Llanrhos

Daeth 75 o gyfranogwyr i'r digwyddiadau ac anfonodd 9 unigolyn arall sylwadau drwy 13 e-bost. Cafodd pob digwyddiad fwy na 627 o sylwadau unigol ar ystod eang o faterion.

Argraff Cymorth Cynllunio Cymru oedd y byddai'r mwyafrif (ond nid pob un) o'r cyfranogwyr a fynychodd yn debygol o wrthwynebu'r safle pe bai'r ymarfer wedi bod yn ymgynghoriad ffurfiol. Bu i sawl llythyr dilynol a gafwyd ganfod eu bod yn wrthwynebiadau. Roedd rhai o'r cyfranogwyr a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau yn amharod i gymryd rhan yn y trafodaethau ar ddyluniad y safle a blaenoriaethau cymunedol ar yr egwyddor eu bod yn gwrthwynebu'r cynllun. Bu i'r cyfranogwyr eraill, a oedd o blaid y tai newydd, nodi rhai materion technegol a fyddai angen eu goresgyn.

Er bod y sesiynau wedi eu rhannu'n bedwar pwnc trafod eang, bu i bob pwnc orgyffwrdd â'r nesaf, ac er rhwyddineb, mae'r crynodeb canlynol yn cymryd ystyriaeth o adborth o bob digwyddiad a phynciau trafod ac wedi ei rannu yn i). Materion sy'n peri pryder a ii). Camau lliniaru a gwelliannau.

## <u>i). Materion sy'n peri pryder i'r gymuned</u>

Mae'r pwyntiau canlynol wedi eu graddio yn ôl pa mor aml y'u nodwyd gan unigolion gwahanol ar draws bob digwyddiad a sylwadau ychwanegol a gafwyd ar e-bost.

**<u>SYLWER:</u>** Nid yw hon yn rhestr lawn o'r holl faterion a godwyd - gweler atodiadau A a B am nodiadau'r holl adborth a gafwyd.

Roedd y meysydd o bryder mwyaf cyffredin, yn nhrefn pa mor aml y'u codwyd (uchaf yn gyntaf) yn cynnwys:

**1. Priodoldeb, effaith ar y Lletem Las a'r gallu i ddarparu** (118 sylw). Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau (ond nid pob un) yn gwrthwynebu'r cynnig, gan ddisgrifio'r effaith negyddol y byddai'n ei gael ar gymeriad presennol Llanrhos. Bu i sawl un nodi bod y dyraniad yn amhriodol, na fyddai modd ei gyflawni, ac nad oedd modd cyfiawnhau'r newidiadau i'r Lletem Las i ddarparu ar gyfer y cynnig. Roedd y themâu allweddol fel a ganlyn:

1.1. Mae Llanrhos yn bentref / pentrefan gyda chyfran uchel o breswylwyr wedi ymddeol sy'n elwa o dirwedd hanesyddol; roedd llawer o'r farn y byddai'r cymeriad hwn yn cael ei golli pe bai'r cynnig yn symud yn ei flaen. Mae nodweddion lleol, treftadaeth, a thirnodau megis Y Fardre, Castell Deganwy, Tŵr Bryniau, Tyn y Coed, Neuadd Bodysgallen, Neuadd Maelgwn, hawliau tramwy cyhoeddus presennol a mannau gwyrdd yn ffurfio rhan o Ardal Tirwedd Arbennig Conwy sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan y gymuned a thwristiaid. Byddai'r rhain yn cael eu heffeithio'n negyddol gan y datblygiad newydd a byddai tir amaethyddol a man gwyrdd agored gwerthfawr yn cael

eu colli. Cyfeiriodd sawl un at y ceisiadau cynllunio diweddar a oedd wedi cael eu gwrthod oherwydd effaith weledol ac effaith ar gefn gwlad agored.

1.2. Roedd llawer (ond nid pawb) yn galw am gael gwared ar y dyraniad oherwydd ei fod yn groes i ddymuniadau'r gymuned. Roedd sawl sylw yn nodi bod maint y dyraniad yn anghymesur â'r ardal, yn cynrychioli gorddatblygiad a bod y lleoliad y tu allan i'r dref heb unrhyw fynediad at gyfleusterau a'i fod felly yn anghynaladwy. Roedd llawer yn cwestiynu a oedd digon o gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y mewnlif o breswylwyr newydd; mwy na thebyg y byddai angen i'r mwyafrif gymudo, gan waethygu traffig lleol a diogelwch ar y briffordd. Roedd eraill yn cwestiynu yr angen am y nifer o dai, yn enwedig yng nghyd-destun poblogaeth Llanrhos. Nodwyd gan sawl un yr absenoldeb o unrhyw adroddiadau i gyfiawnhau cynnydd mor fawr i faint Llanrhos, ac nad oedd unrhyw asesiadau manwl o ran addasrwydd ar gael yng nghyd-destun dosbarthiadau tir amaethyddol, effaith weledol, ecoleg, perygl llifogydd, effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol.

1.3. Roedd o leiaf 24 sylw yn nodi na ddylid addasu'r Lletem Las, gyda sawl un yn nodi y byddai'r dyraniad yn arwain at flerdwf trefol a cholli'r rhaniad a'r cyfuniad rhwng Llanrhos a Deganwy. Roedd llawer yn teimlo y byddai caniatáu addasiad i'r amddiffyniad hanesyddol hwn rŵan yn golygu y byddai'n haws gwneud addasiadau yn y dyfodol a byddai'n arwain at flerdwf pellach i Landudno. Roedd rhai o'r farn bod sicrwydd absoliwt na fyddai unrhyw addasiadau pellach yn cael eu gwneud i'r Lletem Las yn hanfodol.

1.4. Roedd eraill yn cwestiynu p'un a oedd modd darparu'r safle. Codwyd sawl pryder ynglŷn â pherchnogaeth tir y safle a ph'un a oedd pob tirfeddiannwr yn fodlon gyda'r datblygiad ac fe nodwyd gan ran y byddai cyfamodau ar ran ogleddol y safle yn atal unrhyw ddatblygiad rhag digwydd.

1.5. Roedd rhai sylwadau yn cefnogi'r cynnig (yn amodol ar fynd i'r afael â'r pryderon), gan nodi bod angen tai i bobl ifanc yn yr ardal a bod angen cymysgedd priodol o dai yn cynnwys tai'r farchnad agored er mwyn ei wneud yn hyfyw.

**2. Mynediad, Traffig a Diogelwch ar y Briffordd** (76 sylw). Roedd llawer o'r sylwadau yn mynegi pryderon y byddai'r tai newydd yn arwain at 200-300 o geir ychwanegol ar y ffyrdd (dyma'r amcangyfrif a oedd yn y sylwadau) ac y byddai hyn yn rhoi mwy o bwysau ar rwydweithiau ffyrdd presennol, yn creu mwy o lygredd ac yn cael effaith negyddol ar ddiogelwch gyrwyr a cherddwyr. Byddai lleoliad y safle, diffyg yr amwynderau lleol a chyfleoedd cyflogaeth yn golygu y byddai preswylwyr newydd yn ddibynnol ar geir, a bod cludiant cyhoeddus lleol yn brin ac yn rhy ddrud. Roedd llawer o'r sylwadau yn pryderu ynghylch diffyg unrhyw fanylion am bwyntiau

mynediad neu asesiadau traffig gyda'r cynnig. Nodwyd gan rai bod Bryn Lupus Road a Pentywyn Road yn brysur ar adegau penodol, a mynegwyd pryderon gan eraill ynghylch sut y byddai'r safle yn cael mynediad at Pentywyn / Conway Road, sydd eisoes â sawl cyffordd, ac sy'n ffordd gyflym a pheryglus (yn ôl un sylw roedd dros 625 o droseddau goryrru wedi cael eu cofnodi yma yn yr 11 mis hyd at fis Tachwedd 2021). Roedd eraill yn credu bod datblygiadau tai diweddar wedi arwain at gynnydd mewn traffig ac roedd ceisiadau eraill wedi cael eu gwrthod yn yr ardal ar sail diogelwch ar y briffordd. Roedd eraill o'r farn nad oedd gwelliannau i'r isadeiledd ffordd i ddarparu ar gyfer y datblygiad yn bosibl, er fe nodwyd mewn sylw arall na fyddai 200+ o geir ar y ffordd ar yr un pryd, mae llif traffig yn isel yn gyffredinol ac mae llygredd ceir yn lleihau o un flwyddyn i'r llall oherwydd datblygiadau mewn technoleg rheoli allyriadau.

**3. Effaith ar wasanaethau lleol / isadeiledd** (52 sylw). Bu i lawer fynegi pryderon bod y gwasanaethau presennol eisoes o dan bwysau sylweddol ac na fyddai'n bosib iddynt ymdopi â'r mewnlif o breswylwyr newydd. Roedd sawl sylw yn cyfeirio at feddygfeydd, gan nodi eu bod wedi cyrraedd pen eu tennyn ac nad oeddent yn gallu recriwtio meddygon teulu newydd. Roedd eraill yn nodi nad oedd yn bosib cofrestru ar gyfer triniaethau deintyddol ar y GIG a bod mynediad at ysbytai a thriniaethau eisoes yn wael. Roedd eraill o'r farn bod y mater hwn yn cael ei anwybyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy'r broses gynllunio. Roedd sawl sylw yn cwestiynu capasiti Ysgol Deganwy, o ran gofod ffisegol ac adnoddau ariannol i gefnogi mewnlifau o ddisgyblion newydd a fyddai'n deillio o'r datblygiad - yn ôl rhai roedd yr ysgol yn llawn ond roedd eraill yn nodi bod niferoedd disgyblion yn dirywio. Roedd eraill yn cyfeirio at droseddau ac yn pryderu ynghylch capasiti'r gwasanaethau heddlu lleol.

**4. Effeithiau eraill** (46 sylw).

4.1. Roedd o leiaf 13 sylw yn cyfeirio at effaith y cynnig ar Barc Carafanau Maes Dolau. Roedd y sylwadau hyn yn nodi y byddai'r tai yn cael effaith negyddol ar yr olygfa o'r safle, byddent, mwy na thebyg, yn atal cwsmeriaid rhag aros yno ac yn effeithio ar breifatrwydd, diogelwch a mwynhad o'r safle i berchnogion carafanau presennol. Byddai hyn yn gwaethygu ymhellach ger y brif fynedfa i'r safle ac roedd y cynnydd o ran defnydd y llwybrau cerdded ar hyd y safle hefyd yn peri pryder. Hefyd, nodwyd y byddai effaith y gwaith adeiladu yn broblemus a byddai'n cael effaith negyddol ar y busnes. Mae perchnogion y parc carafanau wedi gofyn i gael nodi eu bod wedi mynegi gwrthwynebiadau sylfaenol i'r cynnig ac y byddant yn parhau i wneud hynny. Ni fyddant yn gwerthu unrhyw ran o'u safle i hwyluso hyn neu unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.

4.2. Cyfeiriwyd at yr effaith ehangach ar dwristiaeth yn yr ardal sawl tro yng nghyd-destun colli tirwedd a'r effaith ar y Lletem Las.

4.3. Cyfeiriwyd at effeithiau posibl ar eiddo preswyl a'r ardal gyfagos, gan gynnwys fandaliaeth / troseddu cynyddol, llygredd sŵn a golau a gostyngiad posibl yng ngwerth eiddo.

4.4. Mynegwyd pryderon gan eraill y byddai'r cynnydd o ran y boblogaeth yn gwanhau'r iaith Gymraeg.

**5. Llifogydd / draenio** (45 sylw). Roedd llawer o'r sylwadau yn adrodd achosion o lifogydd lleol a fyddai'n gwaethygu drwy ychwanegu arwynebau newydd heb dyllau ar y safle a mwy o ddŵr ffo. Nodwyd lleoliadau penodol a oedd yn cael eu heffeithio gan lifogydd, yn cynnwys y cae i'r Gogledd o'r parc carafanau ger Ffordd Bryn Lupus, ac fe gyflwynwyd lluniau a fideos yn dangos achosion o lifogydd ym Maes y Castell, Lôn Bryn Maelgwyn a Lôn Pedr. Nodwyd hefyd y bydd yr achosion o lifogydd yn cynyddu o ganlyniad i newid hinsawdd, gydag eraill yn nodi bod datblygiadau diweddar wedi gwneud y sefyllfa'n waeth. Dywedodd eraill nad oedd gwelliannau wedi cael eu gwneud i ddraeniau lleol o ganlyniad i ddatblygiadau diweddar a bod angen mynd i'r afael â chapasiti'r draeniau cyn ychwanegu mwy o dai. Dywedodd un y byddai'r costau o ddarparu datrysiadau ar y safle yn golygu y byddai llai o dai fforddiadwy ar gael a dywedodd un arall bod llifogydd lleol yn clirio'n sydyn ond er hyn roedd angen cynllun derbyniol ar gyfer draenio cyn mynd ymlaen â'r datblygiad.

**6. Natur tai / tai fforddiadwy** (29 sylw). Roedd sawl sylw yn cwestiynu'r cymysgedd o fathau o dai fyddai'n cael eu darparu a chanran y tai fforddiadwy a chymdeithasol fyddai'n cael eu darparu. Codwyd sawl pryder ynglŷn â darparu tai marchnad drud a chartrefi mawr i deuluoedd yn unig, ac roedd rhai yn credu y byddai hyn ond yn addas i bobl sy'n symud i'r ardal. Roedd rhai yn nodi bod yr ardal leol angen tai fforddiadwy, byngalos i bobl hŷn ac eiddo llai i bobl ifanc, er roedd gan eraill bryderon am yr effeithiau y byddai tai cymdeithasol a blociau o fflatiau yn eu cael ar breswylwyr presennol. Roedd eraill yn cwestiynu a fyddai tai fforddiadwy yn cael eu darparu o gwbl, byddai datblygwyr yn gostwng eu niferoedd neu fe fyddai gwerthoedd yn cynyddu ac yn eu gwneud yn rhy ddrud. Roedd eraill yn erbyn ail gartrefi.

**7. Ymgysylltu â'r gymuned** (16 sylw). Roedd sylwadau'n mynegi pryderon fod hyn a gweithgareddau blaenorol i ymgysylltu â'r gymuned wedi bod yn annigonnol, nad oedd adborth wedi cael ei dderbyn ac nad oedd unrhyw un yn gwrando ar leisiau'r gymuned, gan wneud yr ymarferion yn ofer. Roedd un sylw'n nodi bod 1,132 o sylwadau wedi cael eu gwneud ar y Strategaeth a Ffefrir ac roedd un arall yn nodi

nad oedd yr Adroddiad ar Sylwadau yn cyfiawnhau pam nad oedd sylwadau wedi cael eu derbyn. Roedd sawl un yn teimlo bod CBS Conwy wedi camarwain y gymuned yn yr ymgynghoriad blaenorol a bod addewidion am ddarparu ysgol newydd wedi cael eu torri. Roedd eraill yn credu y dylai cyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd fel hyn fod yn well ac y dylai bod swyddogion cynllunio wedi bod yn bresennol yn y digwyddiadau i ateb cwestiynau. Roedd llawer yn bryderus ynghylch y diffyg gwybodaeth gefndir a oedd yn cael ei darparu yn y digwyddiadau hyn. Roedd un sylw yn cwestiynu pa un a oedd presenoldeb isel mewn digwyddiadau yn arwydd o ddifaterwch ynghylch y datblygiad.

**8. Sylwadau eraill**

8.1. **Safleoedd amgen / tir llwyd.** Roedd 15 sylw yn cwestiynu pam nad oedd safleoedd amgen wedi cael eu hystyried, gyda llawer yn awgrymu safleoedd tir llwyd gyda gwell mynediad at amwynderau ac ailddefnyddio adeiladau gwag presennol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys Robertson's, yr orsaf ar ochr Cinmel / safle Brenig, eiddo masnachol gwag yn Llandudno. Roedd eraill yn bryderus nad oedd safle Builder Street wedi cael ei gwblhau.

8.2. **Effaith ar yr amgylchedd / bioamrywiaeth**. Roedd 11 sylw yn cyfeirio at yr effaith ecolegol bosibl y byddai colli caeau yn ei chael, yn benodol colli planhigion a chynefinoedd llwynogod, tyrchod daear, gwiwerod, cnocellai'r coed, tylluanod, ffesantod, madfallod dŵr, brogaod, draenogod, ystlumod, gweilch gleision, ymlusgiaid a phryfed.

8.3. **Teithio Llesol.** Roedd 7 sylw yn nodi bod angen gwneud gwaith cynnal a chadw (neu ddiweddaru) ar y llwybrau cyhoeddus presennol (yn enwedig 10/9 a 10/10) er mwyn i breswylwyr allu cael mynediad atynt a'u defnyddio'n ddiogel.

**<u>ii). Camau Lliniaru a Gwelliannau</u>**

Er y bu i'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr gwestiynu a oedd y dyraniad yn briodol, roedd rhai (ond nid pawb) yn fodlon cymryd rhan yn y trafodaethau a rhoi awgrymiadau yn ymwneud â dyluniad posib y safle, camau lliniaru yn erbyn effeithiau a blaenoriaethau ar gyfer y gymuned pe bai'r safle'n cael ei ddatblygu.

Roedd rhai sylwadau'n ategu pryderon a fynegwyd mewn trafodaethau cynharach ac roedd eraill o'r farn na fyddai unrhyw beth yn gwella'r cynnig. Roedd rhai o'r farn y dylai'r pryderon a nodwyd yn rhan i) gael eu trin yn llawn wrth ddylunio'r safle a dylid rhoi cyfiawnhad llawn yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd o ran bob mater a godwyd.

Roedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin, yn nhrefn pa mor aml y'u codwyd (uchaf yn gyntaf) yn cynnwys:

**1. Blaenoriaethau cymunedol, cyfleusterau, a gofodau / gwelliannau** (49 sylw).Roedd sawl sylw yn cyfeirio at y gofodau a fyddai o fudd i breswylwyr presennol, yn arloesol o ran dod â phobl at ei gilydd ac yn cyfrannu at les (er i eraill awgrymu y byddai cadw'r safle fel ag yr oedd hefyd yn gwneud hyn). Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys:

i. Canolbwyntiau cymunedol / Caffis / Canolfan gymunedol, mannau cyfarfod, gerddi cymunedol - canolbwyntiau cymunedol
ii. Canolfannau iechyd, meddygfeydd, a chanolfannau iechyd deintyddol
iii. Siopau ac unedau busnes bach
iv. Tafarndai
v. Rhandiroedd (er nid oedd hyn yn unfrydol)
vi. Ardaloedd chwarae a mannau agored dynodedig i bobl ifanc (ond nid parciau chwarae i blant bach yn unig), wedi'u lleoli yng nghanol y safle er mwyn gallu eu goruchwylio.
vii. Natur, cynefinoedd aeddfed, ardaloedd gwyrdd / awyr iach. Gwelliannau bioamrywiaeth a phlannu coed.
viii. Eu gwneud yn rhywbeth arbennig - carbon isel, y lefelau uchaf o fioamrywiaeth, y buddion cymunedol mwyaf, coridorau gwyrdd.
ix. Gwell cludiant cyhoeddus sy'n fforddiadwy i rieni a phlant. Lleihau dibyniaeth ar geir
x. Isadeiledd teithio llesol ar gyfer cerdded a beicio.
xi. Golygfannau.
xii. Gwell isadeiledd / draenio. Ni ddylai pethau o'r fath fod yn ddibynnol ar dai yn cael eu hadeiladu.
xiii. Sicrhau y diogelir y mannau gwyrdd sy'n weddill / y Lletem Las a'r ardal i'r Gorllewin o'r safle.
xiv. Dim tai, tir amaethyddol, cadw'r Lletem Las.
xv. Dathlu hanes yr ardal.

**2. Lliniaru mynediad / diogelwch y briffordd / pryderon cludiant** (26 sylw). Er bod llawer yn teimlo nad oedd modd gwella goblygiadau diogelwch priffordd y safle, gofynnodd eraill am ragor o wybodaeth ynghylch pwyntiau mynediad ac am ddarparu asesiadau effaith traffig. Gwnaed awgrymiadau ynglŷn â chamau lliniaru yn cynnwys mynd i'r afael â goryrru, mynediad gwael i balmentydd, lleihau llygredd a lledu Bryn Lupus Road. Nododd eraill bod y gwasanaethau bws presennol yn ddrud a bod angen gwasanaethau cludiant cyhoeddus gwell.

3. **Materion Dylunio Safle** (25 sylw). Roedd rhai sylwadau yn awgrymu angen am arloesi o ran dyluniad y safle a'r tai:

   i. Ei wneud yn wahanol i ddatblygiadau eraill / meddwl am syniadau gwahanol a gwreiddiol,
   ii. Byddai defnyddiau cymysg yn well.
   iii. Dathlu / cyd-fynd â threftadaeth / tirwedd leol.
   iv. Lleihau nifer y tai / anelu am ddwysedd is.
   v. Darparu digon o ofodau parcio ac osgoi strydoedd cul (eraill wedi awgrymu lleihau dibyniaeth ar geir).
   vi. Sicrhau bod tai yn effeithlon o ran ynni / yn bodloni safonau BREEAM.
   vii. Mynd i'r afael â phroblemau llifogydd / draenio presennol.
   viii. Mae angen Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy.
   ix. Darparu man amwynder o safon a chanolbwynt cymunedol / man cyfarfod.
   x. Os ydynt yn dai i deuluoedd, dylid blaenoriaethu parciau chwarae dros randiroedd.
   xi. Bu i'r ardaloedd i glustogi'r safle o'i amgylchedd ddenu sylwadau cymysg - roedd rhai yn awgrymu sgrinio ger y Parc Carafanau a Rhodfa St Anne, ond roedd gan eraill bryderon ynghylch p'un ai a fyddant yn cael eu darparu a'r golau a fyddai efallai yn cael ei golli o ganlyniad i'r sgrinio. Roedd sawl un yn cytuno y dylid cadw'r tir i'r Gorllewin o'r safle a'i ddiogelu rhag datblygiad yn y dyfodol.
   xii. Roedd eraill yn cwestiynu a fyddai'r tir yn cael ei lefelu ac a fyddai'r datblygiad yn digwydd fesul cam.

4. **Teithio Llesol** (9 sylw). Roedd sawl sylw yn codi pryderon ynghylch cynnal a chadw a gwella hawliau tramwy cyhoeddus ac roedd rhai hefyd yn cwestiynu pam nad oedd yr ardal ar neu yn gysylltiedig â Mapiau Teithio Llesol. Roedd rhai yn cwestiynu p'un a oedd yr ardal yn addas ar gyfer gwelliannau. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys:

   i. Gwell hygyrchedd i gerddwyr a beicwyr.
   ii. Cysylltiadau gwell / mwy diogel rhwng Llanrhos ac Ysgol Deganwy a siop Llanrhos.
   iii. Gwneud rhywbeth tu hwnt i gyfeirio at yr amgylchedd.

5. **Darparu mwy o wybodaeth / cyfiawnhad / asesiadau** (6 sylw). Roedd sylwadau'n ymwneud â darparu mwy o wybodaeth a chyfiawnhad, yn cynnwys asesiadau effaith ar gyfer y canlynol:

   i. Asesiadau Effaith Traffig
   ii. Asesiadau Effaith Amgylcheddol

iii. Asesiadau Ecoleg / Cynefin
iv. Asesiadau Perygl o Lifogydd
v. Sut mae'r cynnig yn bodloni gofynion y polisi cenedlaethol - e.e. mae canllaw y CDLl yn nodi y dylid gallu cyflawni datblygiad.
vi. Asesiadau addasrwydd yng nghyd-destun dosbarthiadau tir amaethyddol, effaith weledol, ecoleg, ac effeithiau cymdeithasol.

## 6. Materion Eraill

1.1. Roedd 7 sylw yn cyfeirio at ystod o bryderon diogelwch, gan ailadrodd y pryderon ynglŷn â diffyg palmentydd a mynediad i'r briffordd. Roedd eraill yn pryderu am drosedd ac yn nodi bod y parc sglefrio a gynigiwyd yn flaenorol yn peri gofid.

1.2. Roedd 3 sylw yn cyfeirio at effaith y gwaith adeiladu (e.e. sŵn) ar breswylwyr cyfagos ac yn awgrymu y dylid gosod amseroedd gweithredu ar gyfer y safle adeiladu a sicrhau nad oedd y gwaith adeiladu yn effeithio ar fynediad / traffig drwy bentref Llanrhos.

1.3. Roedd 2 sylw yn cyfeirio'n benodol at Gytundebau Adran 106. Nododd un y dylid rhoi arian tuag at wasanaethau lleol, ond awgrymodd un arall bod cyllid yn annhebygol o gael ei ddarparu oherwydd graddfa'r datblygiad a'r ffaith y bydd yn cael ei wneud fesul cam dros sawl blwyddyn.

## 5. Casgliadau ac Argymhellion

O'r 75 o unigolyn a gymerodd ran yn y digwyddiadau a'r 9 unigolyn a gyflwynodd sylwadau ychwanegol, mae'n amlwg fod y mwyafrif wedi mynegi gwrthwynebiadau sylfaenol mewn perthynas ag egwyddor y dyraniad arfaethedig a'r effaith ar y Lletem Las, yn ogystal â phryderon ynghylch ystod eang o effeithiau yn gysylltiedig â'r dyraniad, er nodwyd nad oedd y pryderon hyn yn unfrydol.

Cydnabyddir nad yw'r cyfranogwyr yn cynrychioli cyfanswm poblogaeth Llanrhos, ac felly ni ellir cymryd canlyniadau'r ymarfer yn arwyddocaol yn ystadegol neu fel cynrychiolaeth o safbwyntiau'r rhai na gymerodd ran. Fodd bynnag, o ystyried pa mor aml a chyffredin oedd y materion a godwyd yn annibynnol mewn digwyddiadau, mae'n bosib y byddai materion tebyg yn cael eu hadlewyrchu mewn ymarfer ymgysylltu ehangach.

Mae'r materion a godwyd gan y gymuned yn yr adroddiad hwn (yng nghorff yr adroddiad a'r atodiadau) yn cael eu cyflwyno i CBS Conwy i'w hystyried wrth iddynt baratoi'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd; fel isafswm, mae Cymorth Cynllunio Cymru yn argymell fod yr holl faterion a godwyd yn cael eu trin, eu cyfiawnhau a'u hegluro yn ymgynghoriad y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, ac yn ddelfrydol

bod ymateb yn cael ei baratoi i'r materion a godwyd a'u hanfon at y rhai a gymerodd ran a'i gyhoeddi ar eu gwefan. O ran yr ymgynghoriad sydd i ddod, awgrymodd Cymorth Cynllunio Cymru y dylid ystyried yr argymhellion yn adran 3 wrth gynllunio a hysbysebu ymarfer ymgynghori'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.